**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HB/05441/19

Aelodau'r Cynulliad

22 Gorffennaf 2019

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

**DIWYGIO DEUNYDD PACIO - Y NEWYDDION DIWEDDARAF**

Yn ddiweddar, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ar Wastraff Plastig. Gan fy mod yn ymwybodol bod gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yn y maes hwn, roeddwn am gysylltu â chi i roi'r newyddion diweddaraf ichi ar rai datblygiadau pwysig o ran diwygio deunydd pacio.

Rwy'n siŵr eich bod, fel minnau, yn falch o'r ffaith bod Cymru yn gymdeithas sy'n ail-gylchu'n helaeth. Fodd bynnag, yn arbennig yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd, mae angen gwneud mwy drwy newid i economi mwy cylchol, ble yr ydym yn osgoi gwastraff ac yn defnyddio adnoddau am y cyfnod hiraf bosib.

Ers bod yn gyfrifol am wastraff ac ailgylchu, rwyf wedi bod yn gweithio ar y camau nesaf sydd eu hangen i ychwanegu at ein dulliau o ailgylchu a chyflymu'r trawsnewidiad hwn i economi gylchol. Fel rhan allweddol o'r gwaith hwn, buom yn ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar gynigion i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer Deunydd Pacio a gyda Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar y cynigion ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynhwysyddion diodydd.

Bydd y crynodebau o'r ymgynghoriadau ar y Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Rwy'n croesawu'n fawr yr ymwybyddiaeth gyhoeddus sydd, a'r brwdfrydedd i weithredu, gyda'r ymgynghori ar y Cynllun Dychwelyd Ernes yn denu dros 208,000 o ymatebion ledled y DU. Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth eang i'r dull arfaethedig o gyflwyno polisïau. Y cam nesaf fydd datblygu'r cynigion yn fanylach cyn ymgynghoriad pellach ar y newidiadau rheoleiddiol fydd eu hangen cyn gweithredu. Wrth wneud hynny, byddaf yn gweithio i sicrhau bod y dull terfynol yn iawn i Gymru ac yn ategu'r cynnydd yr ydym wedi'i weld hyd yma.

Mae'r ymgynghoriad diweddaraf hwn yn tanlinellu ymhellach ein hymrwymiad cyffredinol i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, yn dilyn y gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn 2017 sy'n argymell y dull hwn o weithio.  Mae hwn yn gam

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

allweddol fydd yn hwb i leihau y defnydd o ddeunyddiau ac i ddefnyddio adnoddau yn well, y ddau beth yn elfennau allweddol i'n trawsnewidiad i economi fwy cylchol ac i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Hoffwn ddiolch i Aelodau am eich cyfraniadau at y gwaith yma hyd yma, ac rwy'n croesawu eich cyfraniadau parhaus wrth inni fynd ymlaen i'r cam nesaf.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government